Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion 2024

Llangwyryfon yn ennill y Diwrnod Maes!

Cynhaliwyd Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion ar Fferm Brynllwyd, Cwrtnewydd ar ddydd Sul y 27ain o Hydref a dydd Sadwrn, 9fed o Dachwedd. Cafwyd cystadlu brwd drwy gydol y deuddydd, wrth i 15 o glybiau'r Sir gymryd rhan gyda dros 200 o aelodau yn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau. Bu clybiau yn cystadlu yn y cystadlaethau Sialens ATV, Creu Golygfa Nadolig, Arwerthu, Ffensio Iau a Hŷn, Fferm Ffactor, Addurno Ty Sinsir, Creu Reel Tiktok; Torri Cyw Iâr, Trimio Oen, Treialon Cŵn Defaid; Sgiliau Fferm a Gyrru Tractor gan sicrhau digon o amrywiaeth yn ystod y dydd. Diolch i noddwyr y Diwrnod Maes sef Cymdeithasau Tir Glas Ceredigion sef Tir Glas Aberystwyth; Tir Glas Canol Ceredigion yn Aberaeron a Thir Glas Aberteifi.

Dyma restr o'r canlyniadau:-

Stocmon y Flwyddyn – Cwpan Her Cefnmaes: 1af – Ifan Morgan, Penparc ; 2il – Dewi Davies, Llanddeiniol; 3ydd - Dylan Morris, Llangwyryfon; 4ydd – Rebeca James, Llanddewi Brefi.

Tîm dan 28 – Cwpan Her teulu Moelifor: 1af – Penparc; 2il –Llangwyryfon; 3ydd –Llanddewi Brefi

Beirniad Stoc y Flwyddyn 18 oed ac iau – Cwpan Trevor Davies a'r teulu: 1af – Gethin Davies, Lledrod; 2il – Rhys Jones, Mydroilyn; 3ydd – Angharad Lewis-Griffiths, Llanddewi Brefi; 4ydd – Efa Saunders-Jones, Talybont.

Tîm dan 18 – Cwpan Her Pantyrhendy: 1af – Mydroilyn; 2il – Llangwyryfon; 3ydd – Llanddewi Brefi

Beirniad Stoc y Flwyddyn 14 oed ac iau: – Cwpan Her Ffosyfuwch: 1af - Einion Davies, Lledrod: 2il – Magi Jones, Trisant; cydradd 3ydd – Wil Ifan Williams, Pontsian a Lleucu Evans, Talybont.

Tîm 14 oed ac iau – Cwpan Her Fron: 1af – Trisant; 2il – Llangwyryfon B; 3ydd – Llanwenog.

Sialens ATV – Cwpan Mid Ceredigion ATB Group: 1af – Talybont; cydradd 2il - Lledrod a Penparc.

Gyrru Tractor a Loader - Tarian Coffa John Bowman: 1af – Huw Lewis, Trisant; 2il – Dafydd Eynon, Penparc; 3ydd – William Jones, Talybont.

Arwerthu: 1af – Dylan Morris, Llangwyryfon; 2il - Osian Davies, Caerwedros; 3ydd – Ffion Evans, Felinfach

Creu Golygfa Nadolig: 1af – Llanwenog; 2il – Llangwyryfon; cydradd 3ydd – Llangeitho a Penparc

Addurno Ty Sinsir: 1af – Trisant; 2il - Troedyraur; 3ydd - Llanwenog.

Fferm Ffactor – Cwpan Her IBERS: 1af – Lledrod; 2il - Llanddeiniol; cydradd 3ydd – Llanddewi Brefi a Llanwenog.

Ffensio Iau: 1af – Pontsian; 2il – Llangwyryfon.

Ffensio Hŷn - Cwpan Cilerwisg: 1af – Llangwyryfon

Torri Cyw Iâr: 1af – Angharad Evans, Mydroilyn; 2il – Lowri Thomas, Lledrod ; 3ydd – Megan Thomas, Tregaron.

Trimio Oen – Cwpan Her Meinir a Sioned Green, Nantgwyn: 1af – Rhys Williams, Llanwenog; 2il – Ilan Hughes Trisant; 3ydd – Tomos Lewis, Mydroilyn.

Sgilliau Fferm – Tarian Bant ar Cart - 1af – Penparc; cydradd 2il – Llanddeiniol a Llangwyryfon

Creu Reel Tiktok – 1af – Manon James, Troedyraur; 2il – Mari Evans, Llanwenog.

Treialon Cŵn Defaid – 1af- Andrew Davies, Llanddewi Brefi

Ar ddiwedd y cystadlu ac yn cipio cwpan her Pantllleinau oedd clwb Llangwyryfon, gyda Llanwenog yn 2il ac yn cipio tlws Gethin Jones, Deinol gyda Penparc yn 3ydd.

Dymuna C.Ff.I. Ceredigion ddiolch i bawb a fu ynghlwm â Diwrnod Maes y Sir, drwy feirniadu, menthyg offer a stoc, cyfrifwyr ac yn stiwardio gydol y dydd. Diolch yn arbennig i Fferm Brynllwyd a Cathal am ganiatáu i ni gynnal y Diwrnod Maes ac i Cegin D.A. am ddarparu bwyd ar y diwrnod. Gwerthfawrogwn gymorth pawb yn fawr iawn. Hefyd diolch i Cyswllt Ffermio am fodloni i gynnal Diwrnod Agored ar y Sul cyntaf yn Fferm Brynllwyd. Bydd enillwyr y cystadlaethau yma yn cynrychioli Ceredigion yn awr yn y Ffair Aeaf ar 25/26 o Dachwedd ac yn Niwrnod Maes Cymru a fydd yn cymryd lle ar Ebrill 26ain yn Eryri.